# Dadorchuddio Patagonia: Yr addysgu gan Nans Rowlands

# Y Cymro, Rhagfyr 16, 2000

Apwyntiwyd pump ohonom i fod yn athrawon Cymraeg yma yn Y Wladfa eleni.



**Athrawon y Cynllun 2000-2001: Menna, Nia, Rhys, Rhian a Nans**

Mae Rhian a Nia i fyny yn Yr Andes yn dysgu yn Nhrevelin ac Esquel. Yma, yn Y Dyffryn mae Rhys yn dysgu'n Nhrelew, Madryn a Rawson. Dysgu plant yn Nolavon a Gaiman yw gwaith Menna. Yr oedolion yw fy nghyfrifoldeb i.

Ar ddydd Llun rydw i'n teithio i Ddolavon ar y 'colectivo', gwasanaeth bws effeithiol iawn. Ar ôl paned yn y 'terminal' byddaf yn dysgu dau ddosbarth yn Ysgol William C Morris. Dosbarth o ddechreuwyr yw'r cyntaf a'r ail yn ddosbarth trydedd blwyddyn. Cwrs Wlpan y Gogledd wedi ei addasu ar gyfer Y Wladfa ddefnyddir yma.

I ffwrdd â fi am Drelew ar y bws pedwar o'r gloch ar gyfer dysgu grŵp o siaradwyr yn Neuadd Dewi Sant yng nghanol y ddinas. Dyma bobl ddiwylliedig, ddiddorol sy'n awchu am wybodaeth o lenyddiaeth a llawer ohonynt yn ysgrifenwyr profiadol. Mae'n hyfryd sefyl yn ôl, weithiau a gwrando arnynt yn trafod, dadlau a thynnu coes mewn Cymraeg coeth.

Gaiman yw lleoliad gwersi dydd Mawrth a'r amrediad yn eang o bobl ifainc fu yn Llanbedr Pont Steffan ac sy'n astudio Cwrs Pellach, i ddechreuwyr o oedolion a dosbarth arall o bobl ifainc. Disgybl diweddaraf y dosbarth oedolion y wLudmila, merch fach bythefnos oed aned i Leonor.

**Pedwar.**

Yn ôl i Ddolavon ar ddydd Mercher i ddysgu pedwar dosbarth. Yn ychwanegol at wersi dydd Llun mae grŵp o siaradwyr. Mae'r rhain wrth eu bodd yn sgwrsio ac mae cyfoeth o hanes Y Wladfa ar eu cof, a llawer ohonynt yn berchen ar stôr o hen lyfrau.

Bu'n fraint arbennig i gael cyfarfod Gwalia Davies de Evans. Dyma wraig o safiad cadarn, a gallu a phenderfyniad i draethu'n ddiflewyn ar dafod. Y wers olaf ar ddydd Mercher yw'r un gyda thair merch yn eu harddegau sy'n dod o deuluoedd Cymraeg. Maent wedi dechrau llythyru â disgyblion o Ysgol y Berwyn, Y Bala.

Gartref yn Gaiman mae gwersi dydd Iau. Yn ychwanegol at wersi dydd Mawrth mae gwers gyda rhai o staff Coleg Camw a dosbarth arall o siaradwyr. Mae'r siaradwyr yn griw hwyliog, direidus ac mae llawer o dynnu coes a sbort i'w fwynhau yn y wers. Y broblem ydy mai bobl brysur Gaiman yw'r aelodau â'u bys ym mhob brywes, o bwyllgor eisteddfod i arwain côr a'r galw ar eu hamser prin yn ddi-ball.



**Nene, Ludmila a'i mam gyda Nans**

Mae llawer o weithgareddau anffurfiol yn digwydd yma hefyd. Ar nos Iau olaf y mis bydd Clwb Croesi'r Bont yn cyfarfod yn nhafarn Na Petko i gael sgwrs dros baned, cwrw neu faté. Cyfuniad o ddysgwyr a siaradwyr rhugl yw'r rhain. Mae cwrdd llenyddol Tabernacl yn cwrdd yn Nhrelew unwaith y mis hefyd.

Bu'r eisteddfodau yn fwrlwm gwyllt, yn arbennig Eisteddfod Yr Ieuenctid ym mis Medi ac Eisteddfod Y Wladfa ym mis Hydref. Yr anhawster oedd cael gafael ar bobl i ymarfer. Rhedeg o ddrws i ddrws oedd ein hanes.

**Wythnos**

Ar y dydd Sul ar ôl Asado Eisteddfod Y Wladfa teithies i fyny i'r Andes gyda chôr Esquel i gyfnewid dosbarthiadau dysgu gyda Rhian arhosodd yma yn Y Dyffryn am wythnos. Ychydig fisoedd cyn hynny bum yn Comodorro Rivadavia, yn y de yn rhannu'r dysgu gyda Juan Carlos (Siôn) Davies am benwythnos.

Fel y gwelwch, nid gorffwys ar ein rhwyfau yw ein hanes ni yma. Nid bobl ddiog mo'r Gwladfawyr chwaith. Mae hi'n addysg bod yma i dystio i'w hegni a'u brwdfrydedd wrth drefnu priodas, te croeso, asado ffarwél, sosial capel a chant a mil o ddigwyddiadau eraill.

Ie, dysgu yw'r pennawd. Pwy sy'n dysgu pwy, tybed? Un peth sy'n sicr, fydd bywyd byth yr un fath ar ôl bod yma.

'Tan tro nesaf', hwyl a chofion atoch o haul crasboeth Gaiman.